# D. G. LLOYD HUGHES yn Nyffryn Teifi
# REES Y SIOP, yr hen werthwr llyfrau

AR GWR Dyffryn Teifi, ym mhlwyf Llanfihangel-ar-Arth, yng ngogledd hen sir Gaerfyrddin, ceir pentref New Inn. Lle tawel, go ddinôd fu'r pentref ers dros ganrif ond mae traddodiad cryf ymhlith hynafgwyr y lle, traddodiad na roddwyd sylw iddo gan haneswyr porthmona yng Nghymru, fel y bu'r lle ar un adeg yn ferw o weithgarwch yn nyddiau'r porthmyn.

Yno y pedolid gwartheg cyn esgyn dros y mynydd i Rydcymerau a draw i Loegr. Nid hwn, wrth gwrs, yw'r lle i olrhain y traddodiad hwnnw ond gellir dweud yn bendant nad siarad gwag yw'r hyn a ddywedir.

Mae'n eglur mai tyfu o gwmpas y dafarn a roddodd ei henw iddo wnaeth y pentref, yn union fel y daeth llawer i bentref arall i'r golwg ar ôl codi capel. Pa bryd y codwyd tafarn y New Inn — newidiwyd ei henw o New Inn i'r Traveller's Rest tua chanrif yn ôl — sy'n gwestiwn nad oes modd cael ateb pendant iddo erbyn hyn, ond mae rheswm da dros gredu fod a wnelo'r gwasanaeth cludo llythyrau rywbeth â'r digwyddiad.

Gan mai yn nwylo preifat y cynhaliwyd llawer o'r gwasanaeth hwnnw i ddechrau, yn enwedig yng Nghymru, ni ddiogelwyd manylion y trefniadau yn yr un modd ac i'r fath raddau ag y gwnaed gyda'r gwasanaeth cyhoeddus, eithr ceir awgrym am gysylltiad rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan erbyn 1755.

Dyn ar gefn ceffyl oedd yn gwneud y gwaith o gludo llythyrau ac yr oedd taith o 12 milltir yn cael ei hystyried yn hen ddigon i un ceffyl. Felly roedd angen sicrhau lle i newid ceffylau ac yr oedd safle y New Inn yn gweddu i'r dim ar gyfer hynny a hwnnw union hanner y ffordd o 24 milltir rhwng Caerfyrddin a Llambed.

Ar ôl dweud hynny dylid crybwyll y posibilrwydd fod y dafarn ar ei thraed bron ddeugain mlynedd cyn 1755 oblegid ar drawst arferai orwedd uwchben y lle tân gellid darllen rhywbeth tebyg i '1711'. Yn anffodus fe gafodd y ffigurau eu naddu yn o arw ac nid ydynt i gyd y tu hwnt i bob amheuaeth o ran eglurdeb.

* * * *

NID YW cofnodion y plwyf yn dweud dim am fodolaeth y pentref tan yr 1790au. Yn ystod y ddegawd honno cofnodwyd bedyddiadau plant i saith o wahanol deuluoedd o New Inn, yn cynnwys gof, a chladdwyd deg o bobl, yn cynnwys gof arall. At hynny y mae'n bosib fod rhagor o blant y pentref wedi cael eu bedyddio gan yr Annibynwyr ym Mhencader, ddwy filltir i ffwrdd.

Y mae'n werth nodi'r dystiolaeth, gyn lleied ag ydyw, oblegid yr awgrym a rydd yw fod rhagor o dai yn y pentref na'r ychydig a welwyd gan un teithiwr arbennig yn 1804, yn ôl hanes ei daith. Richard Fenton oedd hwnnw ac fe nododd yn ei ddyddlyfr nad oedd yno ond tri neu bedwar o dai ac un siop (ar wahân, y mae'n debyg, i'r dafarn).

Mewn gwirionedd y mae'n amlwg fod Fenton, am ryw reswm wedi cyfyngu ei sylwadau i'r ychydig o adeiladau oedd o fewn tafliad carreg i'r dafarn lle bu'n oedi. Y mae'n debyg fod y rheiny yn cynnwys y tolldy oedd yn gwarchod y ffordd fawr a'r hen ffordd oedd yn canghennu oddi wrthi heibio talcen ogleddol y dafarn ac am y mynydd tua'r dwyrain.

Eithr prin ddau can llath i ffwrdd i gyfeiriad Caerfyrddin, wrth unig groesfan y pentref, yr oedd capel Salem (MC). Codwyd hwnnw yn 1796, tuag wyth mlynedd cyn i Fenton ymweld â'r pentref, ac y mae'n anodd esbonio sut y llwyddodd hwnnw i'w anwybyddu oblegid nid yw'n gudd o waelod y pentref.

Ar wahân i'r capel yr oedd yno hefyd beth bynnag un tŷ, tafarn arall a chapel a godwyd tuag 1780 mewn cae ar y ffordd i Brechfa. Salem oedd enw'r capel hwnnw hefyd.

Bumper Inn oedd enw'r dafarn arall, enw od na welais sôn amdano yn unman o'r blaen. Codwyd honno tuag 1774 a rhaid bod rheswm dros wneud hynny. Mae'n amheus, hwyrach a oedd nifer fawr o anifeiliaid yn cael eu gyrru drwy'r pentref mor gynnar â hynny. Dylid meddwl, yn hytrach, am fasnach bwysig arall, sef y busnes o gludo calch i ffermydd yr ardal a'r cylchoedd cyfagos o rannau dwyreiniol yr hen Sir Gaer, yn enwedig plwyf Llanddarog.

Y daith dros y mynydd o New Inn i Brechfa, ac oddi yno draw trwy Nantgaredig a Phorthyrhyd, oedd y ffordd gyflymaf i gyrraedd y meysydd calch o ogledd y sir ac o rannau isaf Ceredigion. Yn rhan bwysig ohoni roedd y ffordd rhwng New Inn a Llanfihangel-ar-Arth ac yr oedd tafarn y Bumper mewn lle hwylus i ddisychedu'r certmyn cyn mentro'r naw milltir i Brechfa, neu wrth ddychwelyd oddi yno.

* * * *

SUT LE oedd y dafarn roes ei henw i'r pentref yn 1804 ni fynegwyd gan Richard Fenton ond i'w gyfaill Richard Colt Hoare 'a miserable little ale house', welodd ef flwyddyn ynghynt. Yn anffodus, ni wyddom yn iawn at ba un o'r ddwy dafarn yr oedd hwnnw yn cyfeirio.

Yr hyn sydd yn wybyddus yw fod y Brechfa Turnpike Trust wedi cynnal cyfarfodydd yn y Bumper Inn ar sawl achlysur o 1810 ymlaen. Tua chanol y ganrif ddiwethaf newidiwyd enw'r Bumper i Blossom Lodge (er y mae'n debyg y codwyd adeilad newydd) ac agorwyd dwy dafarn arall yn y pentref, sef y Carrier's Arms a'r Smith's Arms, i wneud pedair i gyd.

Yr oedd bodolaeth pedair tafarn mewn pentref mor fach yn arwydd sicr o bwysigrwydd cynyddol pentref New Inn, ac i ategu hynny fe ddaeth yn arferiad o gynnal pedair ffair bob blwyddyn, ym misoedd Ionawr, Mehefin, Gorffennaf ac Awst. 'Roeddent yn ffeiriau poblogaidd ac enillodd ffair Ionawr ei lle yng ngeiriau un o ganeuon y plant wrth groesawu'r flwyddyn newydd yn yr ardal:

*Dydd Calan yw hi heddiw,*
*'Rwy'n dyfod ar eich traws,*
*I fegian am y geiniog*
*Neu doc o fara caws:*
*Mae'n well gen i gael ceiniog*
*I gael mynd i Ffair New Inn,*
*I brynu cacs a fale*
*Nes byddo mola i'n dynn.*

Eithr o safbwynt *Y Casglwr* yr oedd i bentref New Inn bwysigrwydd arall. Mae Mr Emrys Williams, gynt o'r Llyfrgell Genedlaethol, wedi cyfeirio yn y *Carmarthenshire Antiquary* (Cyf. XX (1984)) at le'r siop fel canolfan i'r fasnach fenyn yn siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin yn nechrau'r ganrif ddiwethaf ac wedi tynnu sylw hefyd at waith y sylfaenydd, John Rees, yn gwerthu llyfrau Cymraeg.

* * * *

NI WYDDYS yn sicr o ble y daeth John Rees ond mae'n bosib mai un o'r plwyf ydoedd. Y mae'n debyg mai ei briodas ef oedd honno yn eglwys plwyf Llanfihangel-ar-Arth ar 6 Gorffennaf 1748 pan unwyd John Rees a Mary William.

Yn ôl llythyr gan eu hŵyr, y Parch Josiah Rees, ficer Llangrannog, aeth ei daid i New Inn i agor ei fusnes yn 1755. Ymhle yn union y cychwynnodd hwnnw ni wyddys ond ceir tystiolaeth ddigamsyniol fod John Rees wedi codi tŷ newydd ger yr afon yn rhan isa'r pentref ar ôl cael prydles am 99 o flynyddoedd yn 1776 gan deulu Maesycrugiau.

Yn hwnnw y mae'n debyg yr agorodd ei siop ac y mae'r adeilad, a godwyd yn y dull pensaerniol Sioraidd, ar ei draed o hyd.

Ers degau o flynyddoedd bellach tŷ preifat ydyw a Sŵn-y-nant yw'r enw presennol sydd arno. Saeson sy'n byw yno, ond 'Spring Garden' oedd enw John Rees y Cymro arno ddwy ganrif yn ôl!

Rhan o fusnes John Rees oedd gwerthu llyfrau Cymraeg. Nid ef, serch hynny, oedd y cyntaf o'r ardal i ddangos diddordeb yn y maes arbennig hwnnw, oblegid yn y gyfrol *Traethiad ar y Wisg Wen Ddisglair*, gan Timothy Thomas, a gyhoeddwyd yng Nghaerfyrddin yn 1759, fe welir enw Rees Saunders, Perthyberllan, gydag archeb am bedwar copi.

Plasdy rhyw chwarter milltir o'r pentref yw'r hen Perthyberllan ond mae'n wag ers blynyddoedd. Mae'n anodd credu fod y penteulu wedi bod yn cynnal masnach lyfrau. Tybed ai archebu copïau ar ei gyfer ei hun a chymdogion yn unig a wnaeth Rees Saunders yn 1759, ond wele yn 1771 archebodd ei fab, Stephen Saunders, bedwar copi o *The Welshman's Candle*, Rhys Prichard a argraffwyd yng Nghaerfyrddin y flwyddyn honno, a thair blynedd yn ddiweddarach wele enw Elizabeth Saunders, Perthyberllan, am un copi o *Duwiol Goffadwriaethau*, Thomas Jones (Caerfyrddin, 1774).

Y mae'n bosib mai darllenwyr brwd yn fwy na dim arall oedd teulu Saunders, Perthyberllan, a hwyrach mai hwy a anogodd John Rees i gynnwys gwerthu llyfrau fel rhan o'i fasnach. Yn ddiweddarach fe briododd wyres i John Rees gyda George Saunders, un o feibion Perthyberllan.

Yn 1766 y gwelir enw Rees am y tro cyntaf fel prynwr pecyn o lyfrau Cymraeg pan archebodd ugain copi o'r ail argraffiad o gyfieithiad Dafydd Jones o 'Salmau Dafydd' o wasg Llanymddyfri, ond pwy, tybed, oedd y John Rees hwnnw a elwid yn 'itinerant bookseller' oedd wedi archebu hanner cant o gopïau o *Agoriad i Athrawiaeth y Ddau Gyfamod*, John Bunyan (Caerfyrddin, 1767)?

Wrth sefydlu ac ehangu ei fusnes fe fyddai Rees, New Inn, wedi gorfod teithio cryn dipyn ac ni fyddai'n rhy anodd iddo werthu llyfrau wrth fynd heibio. Ond mae'n gwestiwn a fyddai'n fodlon iawn ar y disgrifaid ohono fel gwerthwr llyfrau crwydrol. Fel 'mercer' neu 'merchant' yr hoffai Rees gael ei adnabod.

Llyfrau crefyddol oedd bob un oedd yn cynnwys enw John Rees ymhlith eu tanysgrifwyr. Olrheinwyd naw ohonynt, ac o'r rheini dim ond pedwar sy'n tystio dros archeb o fwy nag un copi. Soniwyd am 'Salmau Dafydd' eisoes, a'r wyth arall oedd:

**Ocheneidiau o Uffern, gan John Bunyan (Caerfyrddin, 1766)**

**Hymnau Cymmwys i Addoliad Duw, o waith y diweddar Barchedig Jenkin Jones (Caerfyrddin, 1768) — 12 copi**

**Tair Pregeth a bregethwyd yn yr Eglwys Newydd gerllaw Llangeitho gan Daniel Rowland (Caerfyrddin, 1772) — 20 copi**

**Duwiol Goffadwriaethau, Thomas Jones (Caerfyrddin, 1774)**

**Ymadroddion Bucheddol ynghylch Marwolaeth gan William Sherlock cyf. Thomas Williams (Aberhonddu, 1777)**

**Traethiadau ar Gatecism Eglwys Lloegr, Thomas Secker (Mwythig, 1778)**

**Esponiad ar Genesis, J Bunyan (Caerfyrddin, 1788)**